Cyd-baratoi heddiw

YSGOL GYNRADD LLANGADOG

At ddyfodol yfory

# Polisi

# Dysgu yn yr awyr agored

# Ysgol Llangadog

| | |
|---|---|
| Cytunwyd ar ran y llywodraethwyr gan - Agreed on behalf of the governing body by - Arwyddwyd/Signed: | |
| Dyddiad - Date: | 22/10/2020 |

# POLISI DYSGU YN YR AWYR AGORED

"Mae'r awyr agored yn amgylchedd delfrydol ar gyfer dysgu trwy brofiadau, am eu bod yn cynnig cyfleoedd unigryw i fod yn greadigol, i symud o gwmpas, i fod yn swnllyd ac i gymryd risgiau. Mae'r awyr agored yn llawn o sbardunau arbennig fel y tywydd, synau, arogleuon a gweadau sy'n gallu cyfoethogi a gwella amgylchedd dysgu'r plentyn.
Bydd treulio amser yr yr awyr agored yn gwella pob agwedd ar ddatblygiad plant: cymdeithasol, corfforol, diwylliannol a phersonol. Bydd plant sydd wedi datblygu'r sgiliau hyn yn dda yn gallu dysgu a chofio'r hyn a ddysgwyd yn well. Bydd plant yn elwa mewn cynifer o ffyrdd pan roddir mwy o bwyslais ar ddefnyddio'r amgylchedd awyr agored yn adnodd ar gyfer dysgu" (Llawlyfr Dysgu yn yr awyr agored)

'Rydym ni yn Ysgol Gynradd Llangadog yn ysgol awyr agored. Ystyriwn fanteision dysgu yn yr awyr agored ac anogwn i'n staff ddarparu'r cyfleoedd i'r plant i wneud hynny yn y Cyfnod Sylfaen ac yn CA2'.

'Rydym ni yn ffodus iawn fod gennym ardal allanol i fanteisio arni. Ymdrechwn i ddefnyddio'r gymuned ehangach i gynnig profiadau sydd yn cyfoethogi'r dysgu a'r addysgu hefyd.

Manteisiwn ar y cyfle i ddefnyddio'r ardal allanol sydd ar gael er mwyn cyfoethogi'r dysgu a'r addysgu hefyd'.

**AMCANION**

- I godi ymwybyddiaeth a dysgu yn yr awyr agored fel Sylfaen i ddatblygiad corfforol ac addysgiadol y plant.
- I fanteisio ar yr ardal allanol arbennig sydd gyda ni Ysgol Gynradd Llangadog a'r gymuned ehangach a'i ddefnyddio i gyfoethogi'r dysgu a'r addysgu.
- I bob plentyn i ddatblygu sgiliau ac annibyniaeth mewn amryw o amgylcheddau.
- I bob plentyn i ddatblygu agwedd ymholgar a dealltwriaeth o'u hardal leol a'r byd ffisegol a dynol.
- I roi'r cyfleoedd i'r plant i gymdeithasu, cydweithio a chyfathrebu mewn amryw o ffyrdd newydd a gwahanol. I roi iddynt y cyfleoedd i ddatblygu sgiliau cymdeithasol gyda'i cyfoedion ac oedolion.
- I ddarparu amgylchedd diogel ac ysbyrdolgar wrth ddarparu cwricwlwm eang a chytbwys ar gyfer pob unigolyn ac i ddefnyddio'r adnoddau naturiol yn synhwyrol at ddibenion y plant.
- I godi ymwybyddiaeth o faterion amgylcheddol ac annog i'r plant i ofalu am eu hamgylchedd.

**ADNODDAU**

- Mae adnoddau da gyda ni i'w defnyddio yr yr awyr agored. Yn y Cyfnod Sylfaen mae ardaloedd strwythuredig yn hwyluso'r addysgu.
- Mae adnoddau ar gael yn rhwydd. Yn y Cyfnod Sylfaen mae bylchau o adnoddau yn rhan o'r ddarpariaeth barhaus ac felly yn meithrin annibyniaeth a dewis y plant.
- Gofynnir i rieni fod yn rhan o helpu casglu adnoddau e.e. pren, slabs, olwynion, adnoddau cegin fwd.
- Adnewyddir adnoddau allanol pan fo angen.
- Mae'r C.Rh.A, ar ôl trafodaethau gyda'r cyngor ysgol, wedi ariannu a helpu gyda sawl datblygiad o'r ardal allanol (offer chwarae).
- Gweithgareddau Eco a Chyngor Eco.
- Datblygir yr ardal allanol yn barhaus a chynllunnir ar gyfer hyn yng nghynllun datblygu'r ysgol.

**MONITRO AC ASESU**

Ystyriwn fod y broses o asesu datblygiad a dysgu'r disgyblion yr un mor bwysig yn yr awyr agored a'r ystafell ddosbarth.

Paratown gyfleoedd i asesu ar gyfer dysgu yn yr awyr agored a rhown amrywiol gyfleoedd i'r plant i weithio yn unigol, gyda phâr ac mewn grwpiau.

**IECHYD A DIOGELWCH**

Mae darparu a rheoli dysgu yn yr awyr agored yn golygu galluogi plant i gymryd risgiau priodol. Nid yw'n golygu y dylai'r man a ddefnyddir ar gyfer dysgu yn yr awyr agored fod yn rhydd rhag risg, ond dylai'r risgiau y bydd y plant yn eu hwynebu yn yr awyr agored fod wedi'u hystyried a'u gwerthuso. Mae wynebu risg dderbyniol yn rhan sylfaenol o ddysgu yn yr awyr agored.

**I osgoi risgiau:**

- Sicrhewn bod pob plentyn yn gallu cyrraedd deunyddiau neu offer dysgu a chwarae heb orfod ymestyn neu ddringo mewn modd peryglus.
- Sicrhewn bod deunyddiau dysgu a chwarae'n cael eu cario a'u storio'n ddiogel a gwnewn yn siwr bod yr amgylchedd yn drefnus.
- Dylai pob ymarferydd fod yn ymwybodol o'u gweithddrefnu Iechyd a Diogelwch a bod cymorth cyntaf sylfaenol yn rhan o'u cyfrifoldebau.
- Cofnodir unrhyw ddigwyddiadau ynghyd a damweiniau gan sicrhau bod cyfathrebu'n digwydd rhwng y lleoliad/ysgol a rhieni/gofalwr plentyn sydd wedi cael anaf neu y mae damwain a ddigwyddodd i rywun arall wedi effeithio arno.

<u>Delio â damweiniau:</u>

- Bydd damweiniau'n siwr o ddigwydd yn yr awyr agored, er gwaethaf pob ymdrech i'w hosgoi. Maen'n bwysig cofio y bydd y digwyddiadau hyn yn helpu i feithrin dealltwriaeth

y plant o'r hyn sydd o'u hamgylch, ac yn eu galluogi i lunio barn am beth sy'n ddiogel a beth sy'n beryglus. Mae damweiniau felly'n adnodd dysgu amhrisiadwy – cyhyd a bod plant ac ymarferwyr yn dysgu oddi wrthynt.

- Anogwn ein plant i gymryd gofal yn yr awyr agored ac edrych ar ôl eu hunain ac eraill.
- Gosodwn reolau clir a chanllawiau clir.
- Cyfrifoldeb yr athrawon yw sicrhau bod y gweithgareddau yn cyfateb a pholisi Iechyd a Diogelwch yr ysgol.
- Recordiwn ddamweiniau yn ôl y polisi. Mae gan aelodau staff gymhwyster Cymorth Cyntaf.
- Ymdrechwn i leihau'r siawns o risgiau ym mhob math o dripiau a gweithgareddau.
- Cyn ymweliad oddi ar y safle mae asesiadau risg yn cael eu gwneud ac mae'r wybodaeth berthnasol yn cael ei lanlwytho i'r system 'Evolve'.
- Mae athrawon ac ysgrifenyddes yr ysgol wedi derbyn hyfforddiant 'Evolve'.

**CYNHWYSIAD**

- Caiff pob plentyn gyfleoedd i ddatblygu yn gymdeithasol, emosiynol ac addysgol drwy ddysgu a chwarae yn yr awyr agored. Rydym yn datblygu'r disgyblion i fod yn hunan ddysgwyr sy'n datblygu i'w llawn botensial yn foesol ac yn ysbrydol.
- I bob plentyn i feithrin ymdeimlad o gyfrifoldeb a pharch tuag at ardaloedd chwarae yn yr awyr agored wrth iddyn nhw ddatblygu eu sgiliau corfforol a sgiliau'r cwricwlwm yn drawsgwricwlaidd drwy gemau a gweithgareddau strwythuredig.
- I fanteisio ar gyfleoedd i ddatblygu sgiliau'r fframwaith llythrennedd a rhifedd yn y byd real.
- I ddarparu cyfleoedd rheolaidd i blant ddatblygu ac ymarfer eu sgiliau darllen ac ysgrifennu yn yr awyr agored.
- I gynllunio, trefnu ac asesu dysgu a lles yr un mor dda yn yr awyr agored ag a wneir dan do.
- I ddatblygu cynlluniau effeithiol ar gyfer gwella dysgu yn yr awyr agored, a gosod targedau clir a mesuradwy ar gyfer gwella deilliannau i blant y Cyfnod Sylfaen.
- I ofalu bod yr holl staff wedi'u hyfforddi'n dda yn rhyngweithio ac yn hyderus wrth ddefnyddio'r awyr agored i gefnogi dysgu gan blant.
- I wneud yr addysgu a'r dysgu yn hwyl i'r plant.
- I feithrin ymdeimlad o falchder a pharch yn y plant tuag at eu hamgylchedd naturiol.
- I fanteisio ar gyfleoedd i ddatblygu sgiliau meysydd y Cyfnod Sylfaen yn yr awyr agored.
- I roi'r cyfleoedd i'r plant i ddatblygu yn arweinwyr a dysgwyr annibynnol ac i wahaniaethu ar gyfer eu datblygiad.

**GWEITHREDU**

- Drwy gydol yr ysgol, caiff y plant brofiadau strwythuredig ac anstrwythuredig yr yr awyr agored.

- Yn y Cyfnod Sylfaen mae adnoddau pwrpasol a strwythuredig yn cael eu cynllunio i fod yn addas ar gyfer y plant. Mae'n rhoi cyfleoedd i'r ardal allanol i gael ei ddefnyddio i addysgu a dysgu.
- Yn y Cyfnod Sylfaen caiff y profiadau dysgu yn yr awyr agored eu cynllunio'n fanwl. Defnyddir yr ardal allanol fel adnodd naturiol i ddatblygu amrywiol sgiliau pwnc, sgiliau fframweithiau a sgiliau cymdeithasol ac emosiynol.
- Mae'r gweithgareddau strwythuredig yn sicrhau dilyniant a pharhad o flwyddyn i flwyddyn. Rydym wrthi'n datblygu profiadau dysgu o gyfnod i gyfnod yn ogystal.
- Rydym yn sicrhau bod y profiadau a gynigir yn cynnig cyfleoedd i ddatblygu sgiliau hanfodol bywyd gan gynnwys dysgu personol, sgiliau ymholi a sgiliau meddwl.
- Caiff y plant gyfleoedd i dyfu a gofalu am blanhigion.
- Caiff y plant gyfle i arbrofi ac i fod yn greadigol yr yr awyr agored.Mae'r ysgol wedi ymrwymo i hyfforddi i staff er mwyn sicrhau eu bod yn hyderus wrth gynllunio a darparu cyfleoedd ar gyfer yr awyr agored.
- Mae'r plant yn defnyddio gwlypdiroedd i ymchwilio i fywyd mewn pyllan a chynefinoedd, addasu a chylchoedd bywyd e.e. Parc Dinefwr, Coedwig Dinefwr, Y Gerddi Botaneg a Phenclacwydd.
- Mae'r ardal leol yn cynnig amrywiol gyfleoedd i ddysgu yn yr awyr agored e.e. Coedwig Dinefwr, Parc Dinefwr, Cestyll lleol, Y Gerddi Botaneg, Ffermydd cyfagos, Bannau Brycheiniog, Dyffryn Tywi.
- Mae'r athrawon yn cynllunio ar gyfer datblygiad y sgiliau pwnc yn arbennig, Gwyddoniaeth, Hanes, Daearyddiaeth a Mathemateg drwy ymchwilio'r ardaloedd allanol.
- Ymfalchïwn yn ein statws Ysgol Eco a rhown gyfleoedd cyson i'r plant ddatblygu'n falch o'i hamgylchedd ac yn ddinasyddion gweithgar.
- Ymdrechwn i wneud y gorau o'r ardaloedd 'eco' ar safle'r ysgol. Darparwn brofiadau garddio, plannu a gofalu am lysiau a ffrwythau gydag oedolion profiadol o'r gymuned sy'n ein cynorthwyo i ddatblygu a chynllunio'r addysg orau ar gyfer ein plant.Caiff
- Blynyddoedd 3, 4, 5 a 6 gyfleoedd i fynd ar deithiau preswyl cyson (Llangrannog, Pentywyn a'r Wyddfa, Caerdydd). Mae'r ymweliadau yn arfogi ein plant gyda nifer o sgiliau adeiladu tîm, hyder a chyfathrebu.
- Anogwn i'n blant gadw'n heini ac iach drwy ddefnyddio'r awyr agored.
- Mae gennym gysylltiadau clos gyda chlwb Rygbi'r Drovers yn Llanymddyfri a Chwmni 'Sgiliau' sy'n arwain sesiwn yn ein Clwb 'Encil' ar ôl ysgol. Mae arweinydd 'Aml Sgiliau' yn ymweld â'r ysgol bob Dydd Mawrth ac yn arwain sesiynau dosbarth cyfan i'r ysgol gyfan. Mae'r ysgol yn cymryd rhan yng nghystadlaethau'r Urdd ac amrywiol weithgareddau'r clwstwr/sir e.e. Athletau/Traws Gwlad.
- Mae'n Dinasyddion Efydd yn arwain amryw weithgareddau yn ystod y dydd.